



Rhif: WG54421

Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Safbwyntiau ar y Cynigion Deddfwriaethol yn
ymwneud â Deddfau Trethi Cymru

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL (h) Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-993-2

Cynnwys

Trosolwg.....	3
1. Cyflwyniad.....	3
2. Diben yr ymgynghoriad	4
3. Y broses ymgynghori	4
4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.....	5
5. Cwestiwn 1.....	6
6. Cwestiwn 2 a 3.....	7
7. Cwestiwn 4.....	9
8. Cwestiwn 5.....	10
9. Cwestiwn 6.....	10
10. Cwestiwn 7	11
11. Cwestiwn 8	12
12. Cwestiwn 9	13
13. Cwestiwn 10	14
14. Cwestiwn 11	14
15. Cwestiwn 12	15
16. Cwestiwn 13	17
17. Cwestiwn 14	17
18. Cwestiwn 15	18
19. Cwestiwn 16	20
20. Cwestiwn 17 yn ymwneud â'r Gymraeg	20
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr.....	21

Trosolwg

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru ar gynigion deddfwriaethol yn ymwneud â Deddfau Trethi Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Y camau nesaf

- 1.2. Er mai mater i Lywodraeth Cymru nesaf fydd gweithredu ar y cynigion deddfwriaethol yn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth bresennol Cymru yn dymuno rhoi ei holynydd mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r 'bil cynhaliaeth trethiant' cyntaf. Mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau barn Llywodraeth bresennol Cymru y byddai'r newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru yn sicrhau y gall Awdurdod Cyllid Cymru barhau i reoli trethi Cymru mor effeithiol â phosibl a pharhau i gyflawni dros Gymru. Felly, mae cyfres o welliannau digyswllt i Ddeddfau Trethi Cymru yn cael eu datblygu y gellid eu cyflawni drwy gyflwyno bil cynnal trethi.

Camau i'w Cymryd

- 1.3. Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

- 1.4. Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

E-bost: ymgyngghoriad@acc.llyw.cymru

Post: Awdurdod Cyllid Cymru

Blwch SP 108

Merthyr Tudful

CF47 7DL

Copïau ychwanegol

- 1.5. Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae ymatebion unigol wedi'u heithrio.

- 1.6. Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru](#)

2. Diben yr ymgynghoriad

- 2.1. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru.
- 2.2. Gofynnodd yr ymgynghoriad 16 o gwestiynau mewn perthynas â newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ynghylch a fyddai'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg, a sut.
- 2.3. Nod y newidiadau arfaethedig yw:
- unioni meysydd lle mae Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") wedi cael anhawster i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol.
 - ymateb i adborth gan drethdalwyr, a/neu
 - sicrhau bod Cymru yn gyson â'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r DU.
- 2.4. Nid oes cysylltiad rhwng llawer o'r newidiadau arfaethedig, ond y nod cyffredinol yw egluro Deddfau Trethi Cymru, eu gwella a'u diogelu rhag y dyfodol er mwyn galluogi ACC i barhau i gasglu trethi mor effeithiol â phosibl a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

3. Y broses ymgynghori

- 3.1. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru, sydd i'w cynnwys ym 'mil cynhaliaeth trethiant' arfaethedig cyntaf Cymru. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru Llywodraeth nesaf Cymru i benderfynu a ddylai'r bil arfaethedig symud ei flaen.
- 3.2. Roedd yr ymgynghoriad yn agored rhwng 5 Tachwedd 2025 a 26 Ionawr 2026. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg ar dudalen we ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.
- 3.3. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg, drwy'r post (copi caled), drwy e-bost neu drwy ddefnyddio ffurflen ymateb ar-lein.

- 3.4. Mae egwyddorion treth Llywodraeth Cymru yn nodi'r ffordd y caiff treth ddatganoledig ei datblygu a'i chyflwyno, gan nodi y dylai trethi Cymru godi referniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl; cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru; bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml; cael eu datblygu drwy gydweithio a chynnwys eraill, a chyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Dylai'r newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru sydd i'w cyflwyno mewn bil cynhaliaeth trethiant gefnogi'r egwyddorion hyn lle y bo'n briodol.

4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 4.1. Cafodd yr ymgynghoriad naw ymateb. Nid ymatebodd pob un o'r ymgynghoreion i bob cwestiwn. Cafwyd chwech ymateb o sylwedd drwy e-bost a chafwyd tri drwy'r ffurflen ar-lein. Cafodd pob un o'r ymatebion eu cyflwyno yn Saesneg yn unig. Lle na nododd ymatebwyr a oeddent am i'w hymatebion aros yn ddienw ai peidio, mae unrhyw wybodaeth a allai ddangos pwy ydynt wedi'i dileu o'r crynodeb hwn.

4.2. Ymatebion yn ôl y math o ymatebydd

Categori'r ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr
Unigolion a oedd yn ymateb yn breifat	3
Cyrff proffesiynol a/neu grwpiau â buddiant	4
Academyddion mewn Sefydliadau Addysg Uwch	1

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad A**.

- 4.3. Mae'r derbyniad cyffredinol i'r ffordd newydd arfaethedig o ddatblygu deddfwriaeth dreth yng Nghymru a'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (gan gynnwys pob ymatebydd a roddodd ymatebion o sylwedd) wedi bod yn gefnogol i'r mwyafrif o'r cynigion yn y Papur Gwyn, gyda Propertymark yn nodi rhai pryderon i gynigion penodol megis y cynnig y cynyddu cyfradd llog taliadau hwyr (cynnig 9).
- 4.4. Roedd tri o'r pedwar ymateb dienw a gyflwynwyd gan unigolion yn methu ag ymdrin â diben yr ymgynghoriad. Nid oedd yr tri ymatebion dienw yma yn cefnogi unrhyw un o'r cynigion a gwnaethant hynny heb roi unrhyw resymeg dros eu safbwynt, neu roeddent yn mynegi anfodlonrwydd gyda datganoli yn gyffredinol yn ogystal â gwneud sylwadau ar bwerau treth incwm a oedd y tu allan i gwmpas ein hymgynghoriad. Er bod mynegi'r fath anfodlonrwydd a safbwyntiau yn ddilys, nid ydynt yn helpu i lywio'r materion penodol roedd yr ymgynghoriad yn ceisio ymdrin â nhw. Felly, mae gan bob cynnig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad gyfradd ymateb negyddol o 33.3% o ganlyniad i'r tri ymatebydd hyn.

- 4.5. Roedd y Sefydliad Siartredig Trethiant, ei Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel a Grŵp yr Ymarferwyr Trethi Stamp yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i ddiweddarau Deddfau Trethi Cymru yn gyffredinol, gan nodi bod y cynigion yn cefnogi mwy o eglurder a thegwch a thynnu sylw at ble mae mesurau diogelu neu graffu ychwanegol o ganlyniad i'r broses ddeddfwriaethol sylfaenol yn fuddiol.
- 4.6. Roedd y sylwadau a gyflwynwyd gan Dr Sara Closs-Davies ac yr Athro Adrian Sawyer (Prifysgol Manceinion a Phrifysgol Caergaint, Seland Newydd) yn ategu'r sylwadau hyn. Er eu bod yn cefnogi'r cynigion fel y cyfryw, roeddent yn dadlau o blaid tryloywder, atebolrwydd a chanllawiau clir pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn deall eu hawliau a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud. Cydnabu'r sylwadau a gyflwynwyd fod angen cysondeb ag ymarfer trethiant ehangach y DU mewn meysydd penodol ynghyd â theilwra at anghenion Cymru.
- 4.7. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn ategu'r sylwadau hyn, gan gefnogi'r rhan fwyaf o gynigion yn ddarostyngedig i amodau cadarn ynglŷn â thegwch, cymesuredd, adnoddau, ac eglurder deddfwriaethol.
- 4.8. Cafwyd ymateb gan randdeiliad o'r diwydiant a chynrychiolydd o'r diwydiant. Roedd y naill ymateb a'r llall yn cefnogi'r cynigion, gan gydnabod y byddai llawer o'r cynigion yn gwneud newidiadau er budd trethdalwyr (gydag ychydig eithriadau), a rhoi cyngor doeth ynglŷn â chanllawiau clir a'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 4.9. Hoffai Llywodraeth Cymru ac yr ACC ddiolch i'r holl ymatebwyr am eu hamser a'u hymdrech wrth ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwn.

5. Cwestiwn 1

- a. **A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diwygiad arfaethedig i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i egluro cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau bwrdd ACC?**
- b. **A ydych chi'n cytuno y gall unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. aelodau o staff ACC nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd) bleidleisio mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn unol â'r Cylch Gorchwyl) heblaw am y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth)?**

O blaid y cynnig	6 (66.6%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)

- 5.1. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu ACC yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, gan gynnwys caniatáu i aelodau o staff ACC nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd bleidleisio ar bwyllgorau neu is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt, a rhoi cyfrifoldeb i Fwrdd ACC am benderfynu ym mha bwyllgorau y mae angen aelodau

anweithredol. Fel y'i nodwyd yn gynharach, roedd y tri ymateb negyddol i gyd yn ddienw, ac nid oeddent yn cefnogi unrhyw gynigion. Mae'r rhain yn cyfrif am yr holl ymatebion 'Yn erbyn y cynnig' ar gyfer y cwestiwn hwn a chwestiynau eraill.

- 5.2. Roedd ymatebwyr yn cytuno bod y cynigion yn cynnig dull priodol o wahanu rhwng goruchwyliaeth strategol a rheoli gweithredol, sy'n galluogi staff ACC i wneud penderfyniadau amserol ar sail gwybodaeth a'i gwneud yn bosibl i'r gwaith o graffu ar y Bwrdd a sicrhau atebolrwydd barhau ar yr un pryd.
- 5.3. Nododd Propertymark *"we think this amendment will help maintain the separation between strategic oversight and operational management, enabling WRA staff to make timely, informed decisions while preserving the Board's scrutiny and accountability role."*
- 5.4. Roedd Propertymark hefyd yn dadlau dros bwyllgor cynghorol o randdeiliaid a fyddai'n cynnwys ymgynghoreion o sectorau perthnasol, gan gynnwys Propertymark, i weithredu fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cymru ar bolisi trethiant. Mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ond mae wedi cael ei nodi gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ac yr ACC.
- 5.5. Roedd y Sefydliad Siartredig Trethiant, er ei fod yn nodi'r ffaith bod y diwygiad arfaethedig yn newid deddfwriaethol yn hytrach na diwygiad eglurhaol, yn cefnogi'r diwygiad. Nododd hefyd y dylai aelodau'r Bwrdd, yn unol â'r newid, ddogfennu'r meini prawf y mae'n eu defnyddio i benderfynu pan fydd angen aelodau anweithredol, os nad yw hyn ar waith eisoes.

6. Cwestiwn 2 a 3

Cwestiwn 2

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygiad i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau a Llywodraeth Cymru at ddibenion eu swyddogaethau?
- b. Pa fesurau diogelu sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu gwybodaeth am drethdalwr yn eich barn chi?

Cwestiwn 3

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC?
- b. A ydych chi'n credu bod angen rhoi unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr ar waith?

O blaid y cynnig	6 (66.6%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)

- 6.1. Mae'r ddau gwestiwn hyn wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd gan fod pob ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad wedi gwneud hynny.
- 6.2. Roedd ymatebwyr yn gefnogol i'r cynnig ar y cyfan, gan nodi bod dull cydgysylltiedig yn rhoi cyfle i greu system cydymffurfedd a rheoli trethi fwy effeithlon ar gyfer holl dderbyniadau treth Cymru. Nododd ymatebwyr hefyd y dylid ystyried mesurau diogelu statudol megis cyrff goruchwyllo a throseddau ychwanegol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth warchodedig am drethdalwr yn briodol.
- 6.3. Yn eu sylwadau pwysleisiodd ymatebwyr y rheidrwydd llwyr bod mesurau diogelu cadarn a seilwaith priodol ar waith pe bai gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu er mwyn osgoi camddefnydd. Nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant *"data protection is not our area of expertise however our primary concern from a taxpayer perspective is that taxpayers are made fully aware of the ways in which their data may be used (and the protections on use) at the point they make a transfer of data to the WRA."*
- 6.4. Hefyd, nododd lais masnachol yn benodol *"there is concern that a move away from a national tax authority sharing towards local authority and intra government sharing within Wales could lead to the mis-use or incorrect sharing of data which could be used for the wrong purpose"*.
- 6.5. Nododd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer *"A joined-up approach also allows an opportunity to create a more efficient tax compliance and management system, in addition to the possibility of making it easier and simpler for taxpayers and professionals to adhere to their tax obligations"*. Fodd bynnag, nodwyd *"data protection should be adhered to in effective ways considering the possibility that some of the data sets may be small (and easier to identify individuals) relative to larger data sets held and shared by other institutions."*
- 6.6. Nododd Propertymark fanteision ehangach datgelu data, gan ddweud *"could assist principal councils in matters such as council tax and non-domestic rates compliance, as well as providing Welsh Government with useful data for policy and planning, including social housing, planning, tourism research and potentially a greater understanding of rental and home buying markets."* Hefyd, *"for Propertymark members, improved data sharing could also help ensure accurate property transaction records and local taxation compliance, reducing errors and administrative burdens on estate and letting agents."*
- 6.7. Gwnaeth Propertymark hefyd gynnig pum mesur diogelu ar gyfer data, sef data wedi'u hanonymaiddio, cyfyngu mynediad i'r rhai ag anghenion gweithredol yn unig, dim datgelu i drydydd partïon, defnyddio data at ddibenion a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn unig, a bod yr holl achosion o gael mynediad a dosbarthu data yn cael eu cofnodi a bod modd eu harchwilio.

7. Cwestiwn 4

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi'r pŵer i ACC gadw ad-daliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad?
- b. A ydych chi'n cytuno y dylai penderfyniad i gadw ad-daliad yn ôl fod yn un apeladwy?
- c. A fyddai unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr yn fuddiol ar y cyd â'r pŵer hwn?
- d. A ydych chi'n credu y dylai fod terfyn amser ar faint o amser y bydd gan ACC i benderfynu a ddylid ad-dalu neu agor ymholiad, ar ôl i drethdalwr gyflwyno diwygiad iddo?

O blaid y cynnig	5 (55.5%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	1 (11.1%)

- 7.1. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r diwygiad. Ym marn y Sefydliad Siartredig Trethiant *"amending TCMA to provide a power to withhold, once an enquiry has been opened, is appropriate for revenue protection provided there is the safeguard of an appealable decision by the taxpayer. We also suggest that it will be important to make clear to taxpayers the circumstances in which withholding will be made and their right to appeal at the point at which the repayment is made."* [Credwn fod hyn i fod i gael ei ddarllen fel 'at the point at which repayment would otherwise be made']. Awgrymodd y Sefydliad Siartredig Trethiant y dylai'r pŵer arfaethedig fod wedi'i gyfyngu i senarios lle mae ACC wedi agor ymholiad.
- 7.2. Nododd PropertyMark *"We support the principle of providing the WRA with the power to withhold repayments of LTT during an enquiry where there is a genuine risk that a taxpayer amendment may be incorrect or invalid."*
- 7.3. Nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant fod y pŵer yn debyg i bwerau CThEF yn achos treth incwm a threth enillion cyfalaf yn Neddf Rheoli Treth 1970, adran 59B(4A) yn ogystal â phŵer tebyg i'r un a gynigiwyd yn Neddf Cyllid 2003 Atodlen 10 paragraff 17 ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp, ond gan nodi nad oedd unrhyw berthynas uniongyrchol o ran pŵer cyfatebol i CThEF gadw ad-daliadau yn ôl heb agor ymholiad.
- 7.4. Nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant hefyd mewn ymateb i'r cwestiynau canlyniadol y dylai'r penderfyniad fod yn un apeladwy a chynnwys terfyn amser o naw mis i benderfynu a ddylid cadw ad-daliad yn ôl er mwyn bod yn gyson â'r terfyn amser presennol yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 adran 42 i gywiro ffurflen dreth. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn cytuno â'r Sefydliad Siartredig Trethiant y dylai'r penderfyniadau fod yn apeladwy, ond roedd yn gwyro o ran argymhellion ynglŷn â llinell amser. Nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y dylai ACC gael 30

diwrnod i benderfynu a ddylid cadw ad-daliad yn ôl ac yna dylai fod modd i ACC gadw'r ad-daliad hwnnw yn ôl am 12 mis.

8. Cwestiwn 5

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gwneud y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn fwy eglur er mwyn sicrhau nad oes angen i ACC agor ymholiad i wrthod hawliad pan fydd adran 67 yn gymwys?
- b. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	6 (66.6%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)

- 8.1. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r diwygiad, gan nodi bod gan CThEF bwerau tebyg. Nodwyd bod gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur yn cael gwared ar aneffeithlonrwydd ac yn lleihau gweinyddiaeth ddiangen; Nododd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer y byddai "*simplify administration and reduce unnecessary work, thus making the tax system more efficient.*"
- 8.2. Yn ogystal â chytuno â'r datganiadau cyffredinol gan yr ymatebwyr uchod, daeth PropertyMark i'r casgliad "*we support this measure because the clarification removes unnecessary procedural steps, reduces burdens on agents and taxpayers, while retaining protections through appeal rights, making the system more efficient and transparent.*"
- 8.3. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr fod y cynnig yn gyson â'i *Ten Tenets for a Better Tax System*, gan nodi'n benodol y dylai rheolau treth fod yn syml a rhoi sicrwydd i drethdalwyr. Nododd y dylai'r newidiadau i'r broses ei gwneud yn glir i drethdalwyr: y rheswm/rhesymau pam mae'r hawliad wedi cael ei wrthod; ac y gallant apelio, sut i apelio a beth yw'r terfyn amser i apelio.

9. Cwestiwn 6

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi pŵer i ACC allu rhoi hysbysiad gwybodaeth i gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw'r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi'u bodloni?
- b. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	5 (55.5%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	1 (11.1%)

- 9.1. Mae'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gan nodi bod y cwestiwn hwn yn ymwneud â rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer safleoedd treth arbennig o dan Atodlen 21A, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017
- 9.2. Nododd Propertymark y dylai unrhyw bŵer newydd i roi hysbysiadau gwybodaeth gael ei ddiffinio'n glir ac y dylai fod iddo gwmpas caeth ac na ddylai ddod yn fodd i gasglu gwybodaeth gyffredinol neu ar hap. Eto i gyd, roedd yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, gan nodi *"it is important that reliefs operate as intended and that public revenue is protected."*
- 9.3. Er ei fod yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr *"any correspondence should make it clear to the buyer that they have an obligation under s49(1)(f), LTTA 2017 to submit a further return to WRA, where relief under Sch 21A needs to be withdrawn, within 30 days of a disqualifying event"*.
- 9.4. Cadarnhaodd y Sefydliad Siartredig Trethiant fod y cynnig *"is in accordance with the established position for SDLT enabling the WRA to gather the information required (limited in time to a 4-year period from the effective date) with the safeguards of a review/appeal for the taxpayer."*
- 9.5. Ychwanegodd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer *"Information notices must be presented and written in non-intimidating and meaningful ways (e.g., written in 'plain Welsh/English' where legislative jargon is kept at a minimum for taxpayers to understand). Taxpayers' rights must also be mentioned in such cases."*

10. Cwestiwn 7

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC gynnal ymweliadau dirybudd at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi heb gymeradwyaeth y tribiwnlys na'r trethdalwr?
- b. A oes unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?
- c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	3 (33.3%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	3 (33.3%)

- 10.1. Nododd ymatebwyr y manteision pe bai gan bob un o'r awdurdodau treth ledled y DU y pwerau hyn cyhyd â bod digon o fesurau i ddiogelu trethdalwyr, a chynghorodd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer y dylai staff ACC roi cerdyn adnabod ac awdurdodiad er mwyn cynnal yr ymweliad. Ni

chyflwynwyd sylwadau gan ddau ymatebydd am nad oeddent yn arbenigo ar dirlenwi.

- 10.2. Er ei fod yn cefnogi'r cynnig, nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y dylai fod yn ofynnol i ACC *"[to] provide a written statement of reasons for the visit at the immediate point of entry (or within 24 hours if operational security strictly demands it)."* Nododd hefyd *"the legislation should limit the scope of these specific unannounced powers to Landfill Disposals Tax compliance only."*
- 10.3. Cefnogodd y Sefydliad Siartredig Trethiant y cynnig hefyd, gan gadarnhau, *"we think this approach is consistent with England and NI for landfill tax and is reasonable to counter the nature of fraud risk at landfill sites (large sites with limited management line of sight)."*

11. Cwestiwn 8

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â mewnosod pŵer i wneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru amrywio swm cosbau penodedig?
- b. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	4 (44.4%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	1 2 (22.2%)

- 11.1. Nododd ymatebwyr y byddai hwn yn bŵer priodol ar gyfer ymdrin â mân newidiadau, megis uwchraddio oherwydd chwyddiant, drwy reoliadau, na fyddent felly yn destun craffu llawn gan y Senedd. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a fyddai'n briodol ymdrin â newidiadau mwy radical, megis symud y system gosbau i gosb sy'n seiliedig ar bwyntiau yn hytrach na chosb gyllidol uniongyrchol, drwy is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau.
- 11.2. Roedd Propertymark yn cefnogi'r cynnig ar y cyfan, gan nodi y byddai'n sicrhau *"penalties remain fair and relevant, and maintaining confidence in the Welsh property market. Updating fixed penalties through regulation would keep the system responsive and proportionate, reducing delays and reinforcing the value of using qualified, compliant agents"* so long as *"any changes to fixed penalty amounts should be subject to public consultation and a full impact assessment with consultation with membership bodies such as Propertymark."*
- 11.3. Mynegodd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer eu cefnogaeth i'r pŵer *"provided that it is within limits as set by the Senedd, and subject to regular reviews of the fixed amounts. This allows an opportunity for penalties to reflect the unique issue at hand on a case-by-case basis, thus creating a fairer tax system"*.

- 11.4. Fodd bynnag, nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr mai dim ond ar gyfer ymdrin â mân newidiadau, megis uwchraddio oherwydd chwyddiant, drwy reoliadau y dylid defnyddio pŵer o'r fath. Gwnaeth y ddau sefydliad sylwadau y dylai newidiadau mawr i'r gyfundrefn gosbau gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth sy'n arwain at osod rhyw fath o faich (cydymffurfedd neu ariannol) ar drethdalwyr yn destun craffu priodol. Gwnaethant y pwynt hefyd y byddai newidiadau oherwydd chwyddiant yn unig yn debygol o arwain at *'penalty amounts ceasing to be a round sum that would be more difficult for taxpayers to remember.'*

12. Cwestiwn 9

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynyddu swm y llog ar godir ar daliadau hwyr i 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr?
b. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	4 (44.4%)
Yn erbyn y cynnig	5 (55.5%)

- 12.1. Cyngorodd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer fod "[the] *use of BoE is sensible and the uplift provides a reasonable assessment of the relative risk of interest as an unsecured debt*".
- 12.2. Roedd y Sefydliad Siartredig Trethiant a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn cefnogi'r cynnig, gan gydnabod, os nad oedd modd gweithredu fel CThEF, fod risg y gallai dyledion CThEF gael blaenoriaeth oherwydd cyfraddau llog uwch lle mae ar drethdalwr symiau mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir neu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r dreth dirlenwi.
- 12.3. Mynegodd Cynrychiolydd diwydiant a grŵp cynrychiolydd rhanddeiliaid eu gwrthwynebiadau i'r cynnig, gan nodi "*a high interest rate could be seen as excessive and unfair*" heb yr un trefniant â'r trefniant ar gyfer llog ar ordaliadau a chynyddu costau i'r sector rhentu preifat a'r sector tirlenwi.

13.Cwestiwn 10

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi er mwyn sicrhau pan fydd trethdalwr yn diwygio ei rhwymedigaeth i dalu treth am i lawr y dylai unrhyw swm o log adlewyrchu'r diwygiad i'r ffurflen dreth?
- b. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	6 (66.6%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)

- 13.1. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar y cyfan. Nodwyd bod y diwygiad arfaethedig yn diogelu llif arian parod, gan leihau costau diangen, drwy gysoni cyfrifiadau llog â'r rhwymedigaeth wirioneddol. At hynny, fel y nododd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer, mae'r cynnig yn gwneud triniaeth trethdalwyr Cymreig yn gyson â darpariaethau presennol yr Alban a'r DU.
- 13.2. Gwnaeth y cynnig ennyn cefnogaeth Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr *"tax rules should be fair to both the taxpayer and the tax authority."* Roedd y Sefydliad Siartredig Trethiant o'r farn bod y cynnig *"reflects a fair balance between the WRA's powers and the rights of taxpayers."*
- 13.3. Roedd Propertymark hefyd yn croesawu ffocws y polisi ar degwch, a oedd yn dangos bod ACC yn ymrwymedig i driniaeth gywir, gymesur a thryloyw i drethdalwyr.

14.Cwestiwn 11

- a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi i egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol?
- b. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â defnyddio'r un diffiniad o gell dirlenwi ag a ddefnyddiwyd yng Ngorchymyn Diwygio Treth Dirlenwi'r Alban (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig) 2022?
- c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	3 (33.3%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	3 (33.3%)

- 14.1. Roedd ymatebwyr yn cytuno â diben y cynnig i sicrhau bod pwerau ACC yn cyfateb i bwerau ac arferion yn Lloegr a'r Alban, yn enwedig o ran gweithgareddau adennill costau. Nodwyd bod y diwygiad yn hollbwysig i atal twristiaeth wastraff. Ni chyflwynwyd sylwadau gan ddau ymatebydd am nad oeddent yn arbenigo ar dirlenwi.
- 14.2. Rhoddodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ei gefnogaeth i'r cynigion, gan nodi y gall y cynnig *"close a significant loophole that currently blurs the line between "disposal" and "use."* Nododd hefyd fod cysondeb yn hollbwysig er mwyn atal twristiaeth wastraff o rannau eraill o'r DU.
- 14.3. Rhoddodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ei gefnogaeth hefyd i'r diffiniad o gell dirlenwi a gynigwyd, gan nodi: *"adopting the Scottish definition of a "landfill cell," which defines the taxable area by its impermeable layer. This change is crucial for closing known loopholes – such as the excessive use of waste material for internal walls or "bunds" to avoid tax – and ensures legislative consistency with the rest of the UK to prevent "waste tourism." While this definition offers a clear, physical boundary that simplifies compliance, it is vital that the Welsh Government also adopts the associated Scottish exemptions."*
- 14.4. Cododd grŵp diwydian bryderon y gall y cynigion *"inadvertently bring some recovery activities into scope especially where those recovery activities share some similarities with those of an inert landfill cell"*. Fe nodwyd hefyd *"taxing recovery activities does not constitute an environmental tax and prohibits sites from being brought back into useful life"*.

15. Cwestiwn 12

- a. **A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i gyflawni'r nod datganoledig [i bennu pryd na fydd ystyriaeth a roddir o'r tu allan i'r grŵp yn arwain at dynnu'r rhyddhad yn ôl, oni bai bod y trafodiad yn rhan o gynllun i arbed Treth Trafodiadau Tir]?**
- b. **Beth yw'r amgylchiadau eraill pan fyddai'n briodol peidio â thynnu'r rhyddhad yn ôl yn eich barn chi?**
- c. **A ydych o'r farn y bydd y diwygiad hwn yn cynyddu'r risg o osgoi trethi?**
- d. **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

O blaid y cynnig	2 (22.2%)
Yn erbyn y cynnig	5 (55.5%)
Dim sylw	2 (22.2%)

- 15.1. Roedd yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig yn y mwyafrif. Nodwyd bod y cynnig yn sicrhau nad yw trosglwyddiadau dilys o fewn grŵp gan grwpiau corfforaethol yn cael eu cosbi'n ddamweiniol. Yn cytuno â'r cynnig, dywedodd Propertymark *"group relief should not be withdrawn for normal business reasons, such as moving property between group companies, restructuring the business, or using standard loans or mortgages. Relief should only be removed if the main purpose is to avoid tax."*
- 15.2. Mynegodd y Sefydliad Siartredig Trethiant bryderon ynglŷn â'r cynnig, gan nodi: *"We are concerned that attempting to amend LTTADT(W)A 2017 to ensure relief is not restricted in relation to identified specific transactions could lead to more complex legislation that may not protect benign scenarios identified in the future and therefore require further amendment."*

We suggest that one of the advantages of a single TAAR test that applies to all LTT reliefs should be to reduce the need for specific uncertain anti-avoidance conditions for the reliefs themselves.

However, we recognise that the WRA has reasonable concerns that removal of the condition in Schedule 16 paragraph 4(3)(a) altogether may risk extending the availability of relief beyond that which is intended, for example where a lease is granted inter-group where there are arrangements to sell the landlord's interest and for future rent to be paid to a third party. An option to evaluate is whether an extension to the exception for consideration provided by a group company in Schedule 16 paragraph 4 (3)(a) to provision by a connected person (not just a group member) is within the policy intent.

This extension would ensure that shareholder debt does not compromise the relief in the benign example provided in the consultation at paragraph 12.710. Any such extension would require extending the withdrawal of relief to circumstances where that connection is lost within the three-year period."

- 15.3. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr o'r farn *"legislation can become too complex, and quickly outdated, if it tries to restrict relief on very specific transactions, some of which would be genuine commercial transactions that are inadvertently caught. If there are areas of concern they would be better dealt with in LTT guidance (although that is not binding), which could give examples of scenarios that the rules are not intended to apply to and examples where relief would be restricted."*

As an alternative, we have considered whether s31, LTTA could be amended, to limit relief to cases that the Welsh Assembly [sic.] intended. ICAEW's preference is for the primary legislation to be made as clear as possible, with a supporting Ministerial statement at the date it is enacted that sets out the intended scope."

16. Cwestiwn 13

- a. A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i egluro, mewn trafodiad A i A+B, na ddylid trin A fel prynwr?
- b. A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?
- c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	4 (44.4%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	2 (22.2%)

- 16.1. Nododd Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer “[there] need to be clear rules to ensure that the intention of the provision is met”. Cydnabu'r ymatebwyr y byddai egluro'r pwynt hwn yn cael gwared ar ansicrwydd ac yn sicrhau cysondeb a thegwch mawr eu hangen.
- 16.2. Nododd Propertymar, wrth fynegi ei gefnogaeth i'r cynnig y byddai “better reflect the practical reality of these common arrangements, such as when couples or family members decide to co-own a property, and would simplify compliance for property professionals while reducing administrative burdens for both taxpayers and the Welsh Revenue Authority”.
- 16.3. Wrth gefnogi'r cynnig, gwnaeth y Sefydliad Siartredig Trethiant ddatganiadau mewn perthynas â chwmpas y diwygiad, gan nodi: “We think in principle there is no basis for limiting the clarification to residential property and therefore the question should be put beyond doubt for both residential and non-residential property. The TAAR in LTTADT(W)A 2017 section 31 should help to address any concerns in relation to avoidance for example facilitating a claim for relief that would not otherwise be available if both A and B are both buyers. However, consideration could be given to extending the market value rule to such transactions where B is a company.”

17. Cwestiwn 14

- a. A ydych chi'n cytuno bod y newidiadau i sicrhau na chodir treth ar drafodiadau breinio ar y cyd ar y cyfraddau preswyl uwch yn briodol?
- b. A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?
- c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	3 (33.3%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	2 3 (33.3%)

- 17.1. Roedd yr ymatebwyr ag arbenigedd ar y Dreth Trafodiadau Tir o blaid y cynnig. Nododd ymatebwyr fod y rhyngwyneb â Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 yn golygu y bydd angen newidiadau canlyniadol pellach o bosibl maes o law er mwyn sicrhau'r un effaith ar gyfer trafodiadau breinio.
- 17.2. Nododd Propertymark *"Clarifying this position will provide much-needed certainty for leaseholders, conveyancers, and agents involved in these transactions and will help to ensure that legitimate collective enfranchisement activity is not discouraged by unintended tax consequences."*

18.Cwestiwn 15

[Mae paragraff 3(1)54 Atodlen 8 y Ddeddf Treth Trafodion Tir (LTТА) yn nodi'r rheol gyffredinol bod enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth yn cael eu "edrych drwodd" at ddibenion y Ddeddf Treth Trafodion Tir, fel bod y prynwr a'r gwerthwr yn fuddiol, yn hytrach na'r perchnogion cyfreithiol. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig diwygio'r Ddeddf Treth Trafodion Tir i sicrhau nad yw argaeledd rhyddhadau yn cael ei gyfyngu gan yr edrych drwodd hwn.]

- A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i gyflawni hyn?
- Beth yw'r ffordd orau i ni gyflawni hyn yn eich barn chi?
- A ydych chi'n rhagweld unrhyw weithgarwch osgoi trethi y gallai newid o'r fath arwain ato?
- Os felly, sut y dylem ddeddfu i atal y gweithgarwch osgoi treth?
- Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	4 (44.4%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	2(22.2%)

- 18.1. Wrth roi ei gefnogaeth i'r cynnig, nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr fod y diwygiadau i Dreth Dir y Dreth Stamp yn Neddf Cyllid (Rhif 2) 2005 wedi cael gwared ar fan gwan drwy ei hestyn i lesioedd a roddir gan enwebeion, ond bod trafodiadau gwirioneddol fasnachol na allant gael

rhyddhadau yn cael eu dal. Y cynnig yw y dylid caniatáu rhyddhad yn yr achosion hynny, a fyddai'n sicrhau tegwch.

- 18.2. Tybiodd y Sefydliad Siartredig Trethiant *"The application of the deeming rule has the potential to produce undesired results where the identity of the seller or buyer determines availability of a relief or the application of computational charging rules for partnerships. We therefore agree with amending the LTTA to remove these distortions."* Wrth ateb y cwestiwn nesaf yn yr adran mae'r Sefydliad Siartredig Trethiant yn mynd yn ei flaen i roi ateb drafftio posibl, gan nodi:

One option to evaluate is to consider removing the deeming provision in LTTADT(W)A 2017 Schedule 8 paragraph 3(3) and (4) and instead address the presumed target of the original avoidance by extending LTTADT(W)A 2017 Schedule 6 paragraph 22 (cases where an assignment of lease treated as grant of lease) to catch situations where a lease is granted from or to a nominee followed by an assignment. A reporting requirement on the actual grant of the lease could be added to make it easier for the WRA to track use of this arrangement.. This option would remove the wider collateral damage to the LTT code.

A more restricted option is to apply a limited exception to the current rule in two circumstances; on the grant of a lease to a partnership and on a sale and leaseback such that in those cases (only) the beneficial owner is treated as lessor or lessee. In addition, it would be helpful to provide certainty on the application of the deeming rule beyond the transaction itself (that is, the grant, surrender or termination of a lease). Limiting its application to the transactions themselves should ensure the mischief at which the provision is aimed is countered while other LTT provisions operate, as intended, by reference to beneficial ownership. remove the wider collateral damage to the LTT code."

- 18.3. Cynghorodd Propermark *"Eligibility criteria for reliefs should also be clearly defined, specifying which reliefs can be claimed in nominee or bare trustee arrangements and ensuring that the beneficiaries or ultimate owners have a legitimate interest in the transaction. In addition, comprehensive guidance should be provided for agents, conveyancers, and taxpayers on how reliefs apply in these circumstances."*

19.Cwestiwn 16

- a. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r adran hon ac yn enwedig diwygio adran 187A(1) er mwyn sicrhau bod yr hawliau i ofyn am adolygiad neu apêl yn cael eu rhoi i'r Goron?
- b. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y ffordd y mae cymhwyso at y Goron yn gweithredu?
- c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

O blaid y cynnig	4 (44.4%)
Yn erbyn y cynnig	3 (33.3%)
Dim sylw	2 (22.2%)

- 19.1. Ychydig iawn o sylwadau a roddwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r cynnig hwn ond nodwyd bod y cynnig yn cywiro gwallau teipograffyddol a amheuir.

20.Cwestiwn 17 yn ymwneud â'r Gymraeg

- 20.1. Ni chynigiwyd unrhyw safbwyntiau ar y Gymraeg yn yr ymatebion o sylwedd i'r ymgynghoriad.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

1. Dienw
2. Dienw
3. Dienw
4. Dienw
5. Dr Sara Closs-Davies a'r Athro Adrian Sawyer (Prifysgol Manceinion a Phrifysgol Caergaint, Seland Newydd)
6. FCC Recycling (UK) Ltd, yn masnachu fel FCC Environment
7. Ymateb ar y cyd gan y Sefydliad Siartredig Trethiant, ei Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel a Grŵp yr Ymarferwyr Trethi Stamp
8. Propertymark Ltd
9. Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr